Francis a Leo

Bu ein teulu'n maethu ers dros 25 mlynedd ac roedd ein hieuaf yn dal yn ei arddegau pan wnaethom ni ddechrau ac, erbyn yn, mae ein hwyrion a'n hwyresau'n gwneud llawer iawn â'n plant maeth ac yn eu derbyn fel rhan o'n teulu.

Maent wedi gwneud rhai ffrindiau gwirioneddol hyfryd wrth fynd ymlaen. Rydym wedi gweithio gyda phob oed, o fabanod i rai yn eu harddegau, o hirdymor i argyfyngau a buan iawn y sylweddolwyd bod pob plentyn yn wahanol.

Rwyf bob amser wedi gweithio gyda phlant, fel bod maethu'n ymddangos fel y peth mwyaf naturiol i ni fel teulu. Mae'r llawenydd a gawn o wneud y pethau symlaf gyda phlant maeth, fel mynd â'r ci am dro, mynd i'r traeth, cael hwyl, wedi'n cadw'n mynd ar hyd y blynyddoedd, hyd yn oed ar adegau dyrys.

Mae plant mor agored a didwyll, weithiau edrychiad arbennig neu ben i lawr yn dweud wrthych sut maent yn teimlo a faint yw'r briw oddi mewn. Rwyf wedi dysgu gymaint ynghylch fy ngreddfau fy hun a sut i ymateb i bob plentyn. Mae'r wobr o weld y plant hyn yn gweddnewid eu hunain yn gwneud ein gwaith yn werth chweil.

Ond iddynt fynd â dim ond ychydig o'r atgofion o'u hamser gyda ni, rydym yn teimlo i ni gyflawni rhywbeth. Eu gweld yn dychwelyd at eu teuluoedd yw'r canlyniad gorau oll. Rydym wedi cadw cysylltiad â chymaint o'r plant a'u teuluoedd ar hyd y blynyddoedd ac mae gan lawer ohonynt blant eu hunain erbyn hyn.

Os ydych yn meddwl am feithrin, ein cyngor ni fyddai gwrando ar eich greddf, gofyn llawer o gwestiynau a bod bob amser yn agored a didwyll ym mhopeth a wnewch.